TAFLEN WYBODAETH ADOLYGIAD DYNLADDIAD DOMESTIG
AR GYFER FFRINDIAU

Swyddfa Gartref

BETH YW ADOLYGIADAU DYNLADDIAD DOMESTIG?

Mae Adolygiadau Dynladdiad Domestig yn un ffordd i wella ar ymatebion i drais domestig ac anelu at rwystro'r hyn a ddigwyddodd i'ch ffrind ddigwydd i eraill. Byddant yn ceisio sicrhau bod cyrff cyhoeddus fel y gwasanaethau cymdeithasol, cynghorau, yr heddlu a sefydliadau eraill sydd wedi'u lleoli yn y gymuned yn deall beth ddigwyddodd a'r hyn a arweiniodd at farwolaeth eich ffrind a chanfod ble y gellid gwella ar yr ymatebion i'r sefyllfa. Oddi wrth hyn, mae'r cyrff cyhoeddus yn gobeithio dysgu'r gwersi cywir i gyd gan gynnwys y rheiny sy'n effeithio ar y modd y byddant yn cydweithio. Ni fydd yr adolygiadau hyn yn ceisio gosod bai ond yn ystyried beth a ddigwyddodd a beth ellid fod wedi'i wneud yn wahanol. Byddant hefyd yn argymell camau gweithredu i wella ar ymatebion i sefyllfaoedd trais domestig yn y dyfodol.

Mae Adolygiadau Trais Domestig yn rhan o Ddeddf Trais yn y Cartref, Troseddau a Dioddefwyr 2004 a daethant i rym ar 13eg Ebrill 2011. Nid ydynt yn gwneud yn lle cwêst neu unrhyw ddull arall o ymchwilio ond yn hytrach yn ychwanegu atynt.

PWY FYDD YN CYNNAL YR ADOLYGIAD?

Bydd tîm adolygu yn cynnwys aelodau o gyrff statudol a gwirfoddol lleol yn cael ei ffurfio ond ni fydd yn cynnwys unrhyw swyddogion sydd wedi bod ynghlwm wrth yr achos yn uniongyrchol. Bydd y tîm adolygu yn edrych ar sut y gellid gwella ar ymateb y gymuned gyfan i drais domestig er mwyn rhoi gwell cefnogaeth i ddioddefwyr.

EICH CYSYLLTIAD CHI Â'R ADOLYGIAD HWN

Credwn mai ffrindiau, aelodau teulu a phobl eraill oedd yn adnbod y dioddefwr a'r troseddwr yw'r bobl orau i helpu swyddogion i ddeall yr hyn a ddigwyddodd. Mae dioddefwyr yn aml yn sôn wrth eu ffrindiau am y trais y maent yn ei ddioddef, a weithiau, am eu profiadau wrth ofyn am gymorth. Mae'n dilyn felly y bydd ffrindiau yn gallu helpu cyrff cyhoeddus i ganfod pa wersi y gellir eu dysgu o'r drasiedi hon, felly mae angen clywed eich llais a gwrando arno.

CYMRYD RHAN YN YR ADOLYGIAD

Os byddwch yn penderfynu cymryd rhan yn yr adolygiad, bydd y tîm adolygu yn gofyn i chi rannu eich dealltwriaeth o'r hyn a ddigwyddodd a pham. Gallai hyn gynnwys eich meddyliau, eich atgofion a'ch barn ar unrhyw agwedd o'r drasiedi.Bydd y tîm adolygu yn ceisio sicrhau bod yna gymaint â phosib o ddealltwriaeth o'r amgylchiadau o gwmpas marwolaeth eich ffrind a bydd yna ddysgu o hyn i rwystro marwolaethau eraill yn y dyfodol. Fel rhan o hyn, gallech fod yn gwybod pa ymdrechion fu gan eich ffrind i gael cymorth gan gyrff cyhoeddus, sefydliadau cymunedol ac eraill oherwydd weithiau ni fydd y tîm adolygu yn adnabod y cysylltiadau hyn i gyd. Efallai y byddwch hefyd am gynnig enwau personau eraill yr ydych chi'n credu y dylid eu gwahodd i roi eu barn.

Gallwch roi eich meddyliau a'ch barn drwy gyfrwng pob un neu rai o'r ffyrdd canlynol:

- Yn ysgrifenedig neu drwy recordio
- Sgwrs dros y ffôn
- Cyfarfod wyneb yn wyneb â rhai o'r adolygwyr. Ni fyddai'r cyfarfod hwn yn cymryd lle mewn llys ac ni fyddai gofyn i chi rannu eich meddyliau dan lŵ. Byddai'r adolygwr yn gofyn cwestiynau i gynorthwyo'r drafodaeth ac ni fyddai'r broses gyfan yn parhau am fwy na rhai oriau neu am faint o amser y teimlwch eich bod yn gallu cymryd rhan.

BETH A WNEIR GYDA'R WYBODAETH A RODDWCH?

Bydd yr wybodaeth a rannwch yn helpu'r tîm adolygu i adeiladu darlun manwl o'r hyn a ddigwyddodd cyn y dynladdiad ac yn ei dro yn helpu'r tîm i lunio'u hargymhellion ar gyfer newid. Caiff yr argymhellion hyn wedyn eu rhoi mewn cynllun gweithredu. Bydd eich mewnbwn chi yn gyfrinachol ac ni fyddwch yn cael eich enwi yn yr adroddiad adolygu.

Bydd eich cyfraniad yn werthfawr ac o bosib yn newid y ffordd y bydd y gymuned, gan gynnwys cyrff cyhoeddus, yn ymateb i ddioddefwyr trais domestig.

PA MOR HIR FYDD Y BROSES ADOLYGU YN GYMRYD?

Nid oes amser sefydlog ar gyfer adolygiad dynladdiad domestig ond rhagwelir y bydd yn cychwyn tua mis yn dilyn y farwolaeth. Dylai'r adolygiad ddod i ben o fewn tua chwe mis ond gallai gymryd mwy gan ddibynnu ar ganlyniadau ymholiadau eraill, er enghraifft, unrhyw achos troseddol yn erbyn y troseddwr.

BETH FYDD CANLYNIAD YR ADOLYGIAD?

- Bydd adroddiad manwl a chrynodeb o'r adroddiad hwnnw ar gael ar wefan gyhoeddus
- Cynllun gweithredu i sicrhau y bydd unrhyw argymhellion a wneir yn yr adroddiad yn cael eu gweithredu'n briodol

Y CAMAU NESAF

Chi sydd i benderfynu a ydych am gymryd rhan yn yr adolygiad hwn neu beidio a byddwn yn parchu'ch dymuniad os penderfynwch beidio gwneud hynny. Mae'n bosib y bydd rhaid i ni gysylltu â chi eto i adael i chi wybod pan fydd yr adolygiad wedi'i gwblhau.

Os byddech am gymryd rhan neu os oes gennych unrhyw gwestiynau pellach am y broses adolygu cysylltwch â'r person sydd wedi llofnodi'r llythyr ynghlwm wrth y daflen hon. Byddant naill ai yn ateb eich cwestiynau neu'n eich cyfeirio at rywun all eu hateb.

GWYBODAETH BELLACH A CHEFNOGAETH

Llinell Gymorth Trais Domestig Cenedlaethol: 0808 2000 247 neu
www.nationaldomesticviolencehelpline.org.uk

Men's Advice Line: 0808 801 0327 neu www.mensadviceline.org.uk

GALOP: 0800 999 5428 neu galop.org.uk

AAFDA (Advocacy After Fatal Domestic Abuse): 07768 386922 neu www.aafda.org.uk

National Homicide Service: 0845 3030 900 neu www.victimsupport.org.uk

Gyda diolch i AAFDA (Advocacy After Fatal Domestic Abuse) a Chymorth i Fenywod a ddatblygodd y daflen hon ynghyd â'r Swyddfa Gartref.